CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1036 (Cy.106)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn darparu ar gyfer gweinyddu a gorfodi Rheoliad Cyngor (EC) Rhif 21/2004 yng Nghymru (sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr a diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 a Chyfarwyddebau 92/102/EEC a 64/432/EEC).

Mae Rhan 2 o'r Gorchymyn yn delio gydag adnabod anifeiliaid. Mae'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio dau ddull adnabod ar gyfer anifail a anwyd neu a fewnforiwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005 ac sy'n gysylltiedig â masnach o fewn y Gymuned (erthyglau 6, 8 a 10). Mae'n darparu ar gyfer nodi gyda thag clust ar y daliad geni neu fewnforio (erthyglau 6 a 10), unrhyw anifail sydd ddim yn gysylltiedig â masnach o fewn y Gymuned, ac i ddarparu ar gyfer gweithredu'r system genedlaethol o adnabod ac olrhain pan symudir anifail yn y Deyrnas Unedig (erthygl 7).

Mae'r system genedlaethol wedi'i chymeradwyo gan y Comisiwn yn unol ag Erthygl 4(2)(d) o Reoliad y Cyngor (Penderfyniad y Comisiwn yn 17/8/2005 sy'n cydnabod dros dro y systemau ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr ym Mhrydain Fawr a Gogledd Iwerddon, y Deyrnas Unedig, yn unol ag Erthygl 4(2)(d) o Reoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004(**1**)). Mae hyn wedi ei nodi yn Atodlen 1. Mae Atodlen 1 hefyd yn gymwys i anifeiliaid a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005 (erthygl 7).

(**1**) OJ No L 214, 19.8.2005 p. 63.

NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES

STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1036 (W.106)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006

## EXPLANATORY NOTE

*(This note is not part of the Order)*

This Order makes provision for the administration and enforcement in Wales of Council Regulation (EC) No 21/2004 (establishing a system for the identification and registration of ovine and caprine animals and amending Regulation (EC) No 1782/2003 and Directives 92/102/EEC and 64/432/EEC).

Part 2 of the Order deals with the identification of animals. It requires the application of two means of identification to an animal born or imported after 9 July 2005 and involved in intra-Community trade (articles 6, 8 and 10). It provides for animals that are not involved in intra-Community trade to be marked with an eartag at the holding of birth or import (articles 6 and 10) and for the national system of identification and tracing to operate when an animal is moved within the United Kingdom (article 7).

The national system is approved by the Commission in accordance with Article 4(2)(d) of the Council Regulation (Commission Decision of 17/8/2005 temporarily recognising the systems for identification and registration of ovine and caprine animals in Great Britain and Northern Ireland, the United Kingdom, according to Article 4(2)(d) of Council Regulation (EC) No 21/2004(**1**)) and is set out in Schedule 1. Schedule 1 also applies to animals born on or before 9 July 2005 (article 7).

(**1**) OJ No L 214, 19.8.2005 p 63.

Mae Atodlen 1, Rhan 1 yn ei gwneud yn ofynnol i fanylion y ddiadell neu'r eifre gael eu cofnodi yn y cofrestr a dogfen symud pan symudir anifail o'r daliad geni neu fewnforio. Mae hefyd yn darparu ar gyfer rhoi tag symud ar anifail cyn iddo gael ei symud o ddaliad ac ar gyfer cofnodi cod y tag symud yn y cofrestr a dogfen symud. Dewis arall y darperir ar ei gyfer ym mharagraff 3 yw cofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn y cofrestr a dogfen symud.

Mae Atodlen 1, Rhan 2 yn nodi'r gofynion penodol sy'n gymwys yn lle gofynion Rhan 1, ar gyfer achosion penodol o symud anifeiliaid. Mae paragraff 5 yn darparu ar gyfer adnabod yn unigol unrhyw anifail a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005 cyn iddo gael ei symud, os nad yw eisoes wedi cael ei adnabod yn unigol o dan ddeddfwriaeth flaenorol. Mae Rhan 2 hefyd yn cynnwys symud anifeiliaid yn ôl ac ymlaen rhwng sioeau ac arddangosfeydd (paragraff 7), o farchnadoedd (paragraff 8), yn ôl ac ymlaen rhwng tir comin ac ar gyfer dipio neu gneifio (paragraff 9), yn ôl ac ymlaen rhwng tir pori dros dro (paragraffau 10 a 11), yn ôl ac ymlaen rhwng clinigau milfeddygol (paragraff 12). Mae hefyd yn cynnwys symud hyrddod a geifr sydd wedi eu bwriadu ar gyfer bridio (paragraffau 13, 14 a 15), a symud anifeiliaid i Aelod-wladwriaeth arall (paragraffau 16 a 17).

Mae Erthyglau 12 a 13 yn nodi'r darpariaethau sy'n gymwys pan fydd anifail yn colli dull o adnabod a ddefnyddiwyd yn unol â Rheoliad y Cyngor.

Mae Rhan 3 yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 5 o Reoliad y Cyngor (y gofyniad i bob ceidwad gadw cofrestr gyfredol) ac mae'n nodi'r wybodaeth y mae'n rhaid ei chofnodi yn y gofrestr (erthygl 14), gan gynnwys yr wybodaeth ychwanegol sy'n rhaid ei chofnodi pan fydd anifail yn symud trwy farchnad neu i ladd-dy (erthyglau 15 ac 16).

Mae Rhan 4 yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 6 o Reoliad y Cyngor (y gofyniad bod rhaid i ddogfen symud fynd gydag anifail pryd bynnag y bydd yn symud rhwng daliadau) ac mae'n nodi'r wybodaeth sy'n rhaid ei chofnodi yn y ddogfen symud (erthygl 17), gan gynnwys yr wybodaeth ychwanegol y mae'n rhaid i weithredwyr marchnadoedd ei chofnodi (erthygl 18). Mae Erthygl 19 yn darparu bod rhaid i gopi o'r ddogfen symud gael ei hanfon i'r awdurdod lleol.

Mae Rhan 5 yn darparu ar gyfer gorfodi Erthygl 8 o Reoliad y Cyngor (y gofyniad bod yn rhaid i geidwad roi manylion i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ynglŷn â'i ddaliad) (erthyglau 20 a 21).

Mae Rhan 6 yn delio gyda thagiau clust. Mae Erthygl 22 yn gwneud darpariaeth i Gynulliad Cenedlaethol Cymru i gymeradwyo tagiau clust. Mae Erthyglau 23 i 25 yn gwahardd tynnu tagiau clust neu datŵ ac maent hefyd yn darparu ar gyfer rhoi tagiau clust neu datŵ newydd yn lle'r rhai sydd wedi eu

Schedule 1, Part 1 requires flock or herd details to be entered in the register and movement document when an animal is moved from its holding of birth or import. It also provides for a movement tag to be attached to an animal before it is moved from a holding and for the movement tag code to be entered in the register and movement document. Paragraph 3 provides, alternatively, that the animal's individual identification code is to be entered in the register and movement document.

Schedule 1, Part 2 sets out the specific requirements that apply instead of the requirements of Part 1, for certain movements of animals. Paragraph 5 provides for an animal born on or before 9 July 2005 to be individually identified before it is moved, if it has not already been individually identified under previous legislation. Part 2 also covers the movement of animals to and from shows and exhibitions (paragraph 7), from markets (paragraph 8), to and from common land and for dipping or shearing (paragraph 9), to and from temporary grazing (paragraphs 10 and 11), to and from veterinary clinics (paragraph 12). It also covers movements of rams and goats intended for breeding (paragraphs 13, 14 and 15), and movements of animals to another member State (paragraphs 16 and 17).

Articles 12 and 13 set out the provisions that apply when an animal loses a means of identification applied in accordance with the Council Regulation.

Part 3 makes provision for the enforcement of Article 5 of the Council Regulation (the requirement for every keeper to keep an up-to-date register) and sets out the information that must be entered in the register (article 14), including the additional information that must be entered when an animal moves through a market or to a slaughterhouse (articles 15 and 16).

Part 4 makes provision for the enforcement of Article 6 of the Council Regulation (the requirement for a movement document to accompany an animal whenever it moves between holdings) and sets out the information that must be entered in the movement document (article 17), including the additional information that must be entered by market operators (article 18). Article 19 provides that a copy of the movement document must be sent to the local authority.

Part 5 provides for the enforcement of Article 8 of the Council Regulation (the requirement for a keeper to supply details to the National Assembly for Wales about his or her holding) (articles 20 and 21).

Part 6 deals with eartags. Article 22 provides that the National Assembly for Wales will approve eartags. Articles 23 to 25 prohibit the removal of eartags or tattoos and also provide for the replacement of eartags and tattoos that are removed, lost or illegible. Article 26 prohibits the alteration, obliteration or defacing of

tynnu, eu colli neu sydd wedi mynd yn annarllenadwy. Mae erthygl 26 yn gwahardd newid, dileu neu ddifwyno tagiau clust, tatŵ neu ddyfais electronig. Mae erthygl 27 yn gwahardd defnyddio tagiau clust coch, ac eithrio tagiau R, ac mae erthygl 28 yn gwahardd defnyddio nod y ddiadell neu nod yr eifre, ac eithrio at ddibenion cydymffurfio â'r Gorchymyn hwn neu Reoliad y Cyngor. Mae erthygl 29 yn gwahardd traddodi anifail i'w fasnachu neu ei allforio o fewn y Gymuned os oes ganddo dag clust neu datŵ newydd gyda'r llythyren "R". Mae Erthygl 30 yn darparu ar gyfer gwneud amddiffyniad am beidio â rhoi tag clust i anifail ac am symud anifail o ddaliad heb ddefnyddio'r tag clust gofynnol.

Mae Rhan 7 yn darparu ar gyfer dyrannu rhifau lot i anifeiliaid mewn marchnad ac yn gwahardd prynu neu werthu anifeiliaid oni bai bod yr holl anifeiliaid yn y lot yn cael eu prynu neu eu gwerthu.

Mae Rhan 8 yn ei gwneud hi'n drosedd derbyn anifeiliaid i mewn i Gymru o Aelod-wladwriaeth arall neu o ran arall o'r Deyrnas Unedig os nad ydynt wedi eu hadnabod yn briodol ac os nad oes dogfen symud yn dod gyda nhw.

Mae'r Gorchymyn yn cael ei orfodi gan yr awdurdod lleol (erthygl 35).

Mae torri'r Gorchymyn yn drosedd o dan adran 73 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981, a gellir cosbi yn unol ag adran 75 y Ddeddf honno.

Mae Arfarniad Rheoliadol wedi ei baratoi a'i osod yn llyfrgell Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Gellir cael copïau o Adran yr Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

an eartag, tattoo or electronic device. Article 27 prohibits the use of red eartags, other than R tags, and article 28 prohibits the use of a flockmark or herdmark, other than for the purposes of complying with this Order or the Council Regulation. Article 29 prohibits the consignment of an animal for intra-Community trade or export if it bears a replacement eartag or tattoo with the letter "R". Article 30 provides defences to failing to apply an eartag to an animal and for moving an animal from a holding without applying the required eartag.

Part 7 provides for the allocation of lot numbers to animals at a market and prohibits the buying or selling of animals unless all animals in the lot are bought or sold.

Part 8 creates offences for receiving animals into Wales from another Member State or another part of the United Kingdom if they are not properly identified and accompanied by a movement document.

The Order is enforced by the local authority (article 35).

Breach of the Order is an offence under section 73 of the Animal Health Act 1981, punishable in accordance with section 75 of that Act.

A Regulatory Appraisal has been prepared and placed in the library of the National Assembly for Wales. Copies can be obtained from the Department for Environment, Planning and Countryside, Welsh Assembly Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2006 Rhif 1036 (Cy.106)

# ANIFEILIAID, CYMRU

## IECHYD ANIFEILIAID

# Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006

| | |
|---|---|
| *Wedi'i wneud* | *4 Ebrill 2006* |
| *Yn dod i rym* | *5 Ebrill 2006* |

TREFN YR ERTHYGLAU

RHAN 1

Cyflwyniad


1. Enwi, cymhwyso a chychwyn
2. Dehongli
3. Cod adnabod unigol
4. Yr awdurdod cymwys
5. Awdurdodiadau


RHAN 2

Adnabod anifeiliaid


6. Adnabod anifeiliaid a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005
7. Adnabod anifeiliaid a symudir o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio yn y Deyrnas Unedig
8. Adnabod anifeiliaid a symudir i Aelod-wladwriaeth arall o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio
9. Anifeiliaid a fwriadwyd i'w cigydda
10. Adnabod anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd
11. Gwybodaeth ychwanegol
12. Tynnu dull adnabod neu roi un newydd yn ei le


STATUTORY INSTRUMENTS

# 2006 No. 1036 (W.106)

# ANIMALS, WALES

## ANIMAL HEALTH

# The Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006

| | |
|---|---|
| *Made* | *4 April 2006* |
| *Coming into force* | *5 April 2006* |

ARRANGEMENT OF ARTICLES

PART 1

Introduction


1. Title, application and commencement
2. Interpretation
3. Individual identification code
4. The competent authority
5. Authorisations


PART 2

Identification of animals


6. Identification of animals born after 9 July 2005
7. Identification for animals moved from the holding of birth or holding of import within the United Kingdom
8. Identification for animals moved to another member State from the holding of birth or holding of import
9. Animals intended for slaughter
10. Identification of animals imported from third countries
11. Additional information
12. Removal or replacement of means of identification

13. Rhoi dull newydd o adnabod gyda chod gwahanol yn lle'r hen un

RHAN 3

Cofrestri daliadau

14. Cofrestr y daliad
15. Gofynion ychwanegol ar gyfer symud anifeiliaid trwy farchnadoedd
16. Gofynion ychwanegol ar gyfer symud i ladd-dai

RHAN 4

Dogfennau symud

17. Dogfen symud
18. Gofynion ychwanegol ar gyfer symud o farchnadoedd
19. Cyflenwi dogfennau symud

RHAN 5

Cronfa ddata ganolog

20. Stocrestr o'r anifeiliaid
21. Cyflenwi gwybodaeth

RHAN 6

Tagiau clust

22. Cymeradwyo tagiau clust
23. Tynnu tagiau clust neu roi rhai newydd yn eu lle
24. Tynnu tagiau clust a thatŵs a roddwyd o dan Orchmynion blaenorol neu roi rhai newydd yn eu lle
25. Rhoi tagiau clust newydd yn lle rhai a gollwyd mewn marchnadoedd
26. Addasu tagiau clust etc
27. Tagiau clust coch
28. Defnyddio nod y ddiadell a nod yr eifre
29. Masnachu neu allforio o fewn y Gymuned
30. Amddiffyniadau

13. Replacement of the means of identification with a different code

PART 3

Holding registers

14. Holding register
15. Additional requirements for movements through markets
16. Additional requirements for movements to slaughterhouses

PART 4

Movement documents

17. Movement document
18. Additional requirements for movements from markets
19. Supply of movement document

PART 5

Central database

20. Inventory of animals
21. Supply of information

PART 6

Eartags

22. Approval of eartags
23. Removal or replacement of eartags
24. Removal or replacement of eartags and tattoos applied under previous Orders
25. Replacement of eartags lost at markets
26. Alteration of eartags etc
27. Red eartags
28. Application of flockmarks and herdmarks
29. Intra-Community trade or export
30. Defences

RHAN 7

Marchnadoedd

31. Marchnadoedd

RHAN 8

Anifeiliaid a ddaethpwyd i mewn i Gymru

32. Derbyn anifeiliaid o Aelod-wladwriaeth arall
33. Derbyn anifeiliaid o Loegr, yr Alban, neu Ogledd Iwerddon
34. Symud anifeiliaid yng Nghymru

RHAN 9

Amrywiol

35. Gorfodi
36. Diwygiadau i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003
37. Dirymu a darpariaethau trosiannol

| | | |
|---|---|---|
| ATODLEN 1 | - | System sy'n cydymffurfio ag Adran A.5 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor |
| RHAN 1 | - | Gofynion olrhain cyffredinol ar gyfer symud anifeiliaid yng Nghymru |
| RHAN 2 | - | Gofynion arbennig ar gyfer symudiadau penodol |
| RHAN 3 | - | Anifeiliaid o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon |
| ATODLEN 2 | - | Cofrestr y daliad |
| ATODLEN 3 | - | Dogfen symud |

PART 7

Markets

31. Markets

PART 8

Animals brought into Wales

32. Receipt of animals from another Member State
33. Receipt of animals from England, Scotland, or Northern Ireland
34. Movements within Wales

PART 9

Miscellaneous

35. Enforcement
36. Amendments to the Disease Control (Wales) Order 2003
37. Revocations and transitional provisions

| | | |
|---|---|---|
| SCHEDULE 1 | - | System complying with Section A.5 of the Annex to the Council Regulation |
| PART 1 | - | General tracing requirements for movements of animals in Wales |
| PART 2 | - | Special requirements for specific movements |
| PART 3 | - | Animals from England, Scotland or Northern Ireland |
| SCHEDULE 2 | - | Holding register |
| SCHEDULE 3 | - | Movement document |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 1, 8(1) a 72 o Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**), yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**RHAN 1**

Cyflwyniad

**Enwi, cymhwyso a chychwyn**

**1**.-(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys o ran Cymru ac yn dod i rym ar 5 Ebrill 2006.

**Dehongli**

**2**.-(1) Yn y Gorchymyn hwn, ac eithrio pan fo'r cyd-destun yn mynnu fel arall-

ystyr "awdurdod lleol" ("*local authority*") mewn perthynas ag unrhyw ardal yw y cyngor sir neu'r cyngor bwrdeistref sirol ar gyfer yr ardal honno;

ystyr "canolfan ymgynnull" ("*assembly centre*") yw canolfan ymgynnull fel y'i diffinnir yn rheoliad 1(2) o Reoliadau Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Mewnforio ac Allforio) (Cymru) 2005(**2**);

ystyr "cofrestr" ("*register*") yw'r gofrestr sy'n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad y Cyngor;

ystyr "CPH" ("*CPH*") yn y ffurfiau yn Atodlenni 2 a 3, yw rhif y daliad ym mhlwyf y sir, a neilltuir o bryd i'w gilydd i unrhyw fangre neu ran o fangre gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru;

ystyr "Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC" ("*Council Directive 92/102/EEC*") yw Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC ynglŷn ag adnabod a chofrestru anifeiliaid (**3**);

(**1**) 1981 p.22. Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r "Gweinidog priodol" a'r "Gweinidogion" o dan Ddeddf 1981 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd y swyddogaethau a roddwyd i'r "Ysgrifennydd Gwladol", o dan Ddeddf 1981 ac eithrio'r swyddogaethau sydd wedi eu cynnwys yn Atodlen 1 o Ddeddf 1981, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 2004 (O. S. 2004/3044).

(**2**) O.S. 2005/1158.

(**3**) OJ Rhif L 355, 5.12.92, t.32.

The National Assembly for Wales, in exercise of the powers conferred by sections 1, 8(1) and 72 of the Animal Health Act 1981(**1**), makes the following Order:

**PART 1**

Introduction

**Title, application and commencement**

**1**.-(1) The title of this Order is the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006.

(2) This Order applies in relation to Wales and comes into force on 5 April 2006.

**Interpretation**

**2**.-(1) In this Order, except where the context otherwise requires-

"assembly centre" ("*canolfan ymgynnull*") means an assembly centre as defined in regulation 1(2) of the Animals and Animal Products (Import and Export) (Wales) Regulations 2005(**2**);

"Council Directive 92/102/EEC" ("*Cyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC*") means Council Directive 92/102/EEC on the identification and registration of animals (**3**);

"Council Regulation" ("*Rheoliad y Cyngor*") means Council Regulation (EC) No 21/2004 establishing a system for the identification and registration of ovine and caprine animals and amending Regulation (EC) No 1782/2003 and Directives 92/102/EEC and 64/432/EEC(**4**);

"CPH" ("*CPH*") in the forms in Schedules 2 and 3, means the county parish holding number assigned from time to time to any premises or part of any premises by the National Assembly for Wales;

(**1**) 1981 c.22. Functions conferred under the 1981 Act on "the appropriate Minister" and "the Ministers" were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672). Functions conferred under the 1981 Act on "the Secretary of State", except those functions contained in Schedule 1 of the 1981 Act, were transferred to the National Assembly for Wales by the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 2004 (S.I. 2004/3044).

(**2**) S.I. 2005/1158.

(**3**) OJ No L 355, 5.12.92, p.32.

(**4**) OJ No L 5, 9.1.04, p.8.

ystyr "daliad mewnforio" ("*holding of import*") yw'r daliad lle mae anifeiliaid sydd wedi eu mewnforio o drydedd gwlad yn cael eu symud iddo gyntaf at bwrpas ffermio da byw;

ystyr "dogfen symud" ("*movement document*") yw'r ddogfen symud sy'n ofynnol gan Erthygl 6 o Reoliad y Cyngor;

ystyr "y Gorchmynion blaenorol" ("*the previous Orders*") yw-

(a) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Lloegr) (Rhif 2) 2002(**1**);

(b) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Lloegr) 2002(**2**);

(c) Gorchymyn Adnabod Defaid a Geifr (Lloegr) 2000(**3**);

(ch) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) (Rhif 2) Gorchymyn 2002(**4**);

(d) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**5**);

(dd) Rheoliadau Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Cymru) 2002(**6**);

(e) Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Cymru) 2000(**7**);

(f) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Gogledd Iwerddon) 2004(**8**);

(ff) Gorchymyn Adnabod a Symud Defaid a Geifr (Gogledd Iwerddon) 1997(**9**);

(g) Rheoliadau Adnabod Defaid a Geifr (Yr Alban) 2000 (**10**); neu

(ng) Gorchymyn Symud Defaid a Geifr (Mesurau Dros Dro) (Yr Alban) 2002(**11**);

ystyr "nod y ddiadell" ("*flockmark*"), ac eithrio ym mharagraff 18 o Atodlen 1, yw'r rhif a ddyrannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas â diadell o ddefaid ar ddaliad;

ystyr "nod yr eifre" ("*herdmark*"), ac eithrio ym mharagraff 18 o Atodlen 1, yw'r rhif a ddyrannwyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru mewn

(**1**) O.S. 2002/2153, diwygiwyd gan O.S. 2003/29, O.S. 2003/502 ac O.S. 2003/1728.

(**2**) O.S. 2002/240, diwygiwyd O.S. 2002/764 ac O.S. 2002/1349.

(**3**) O.S. 2000/2027, diwygiwyd gan O.S. 2001/281.

(**4**) O.S. 2002/2302 (Cy. 227), diwygiwyd gan O.S. 2003/167 (Cy.27), O.S. 2003/946 (Cy.127) ac O.S. 2003/1966 (Cy.211).

(**5**) O.S. 2002/1357 (Cy.133).

(**6**) O.S. 2002/274 (Cy. 30), diwygiwyd gan O.S. 2002/811 (Cy.91).

(**7**) O.S. 2000/2335 (Cy. 152).

(**8**) S.R. (NI) 2004 Rhif 491.

(**9**) S.R. (NI) 1997 Rhif 173, diwygiwyd gan S.R. (NI) 1998 Rhif 393.

(**10**) S.S.I. 2000/418, diwygiwyd gan S.S.I 2002/531 a S.S.I 2002/39.

(**11**) S.S.I. 2002/38, diwygiwyd gan S.S.I. 2002/221.

"flockmark" ("*nod y ddiadell*"), except in paragraph 18 of Schedule 1, means the number allocated by the National Assembly for Wales in respect of a flock of sheep on a holding;

"herdmark" ("*nod yr eifre*"), except in paragraph 18 of Schedule 1, means the number allocated by the National Assembly for Wales in respect of a herd of goats on a holding;

"holding of import" ("*daliad mewnforio*") means the holding to which animals imported from a third country are first moved for the purposes of livestock farming;

"identification tag" ("*tag adnabod*") means the eartag referred to in paragraph 5 of Schedule 1 and approved by the National Assembly for Wales in accordance with article 22;

"local authority" ("*awdurdod lleol*") means in relation to an area the county council or county borough council for that area;

"movement document" ("*dogfen symud*") means the movement document required by Article 6 of the Council Regulation;

"movement tag" ("*tag symud*"), except in paragraph 18 of Schedule 1, means an eartag approved by the National Assembly for Wales in accordance with article 22 with a code comprising the following information, printed in the following order-

(a) the letter "S"; and

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is leaving;

"the previous Orders" ("*y Gorchmynion blaenorol*") means-

(a) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (England) (No. 2) Order 2002(**1**);

(b) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (England) Order 2002(**2**);

(**1**) S.I. 2002/2153, amended by S.I. 2003/29, S.I. 2003/502 and S.I. 2003/1728.

(**2**) S.I. 2002/240, amended S.I. 2002/764 and S.I. 2002/1349.

perthynas â geifre o eifr ar ddaliad;

ystyr "Rheoliad y Cyngor" ("*Council Regulation*") yw Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 21/2004 sy'n sefydlu system ar gyfer adnabod a chofrestru defaid a geifr ac yn diwygio Rheoliad (EC) Rhif 1782/2003 a Chyfarwyddebau 92/102/EEC a 64/432/EEC(**1**);

ystyr "tag adnabod" ("*identification tag*") yw'r tag clust y cyfeiriwyd ato ym mharagraff 5 o Atodlen 1 ac a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 22;

ystyr "tag R" ("*R tag*") yw tag clust coch a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 22 gyda chod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol, wedi ei hargraffu yn y drefn sy'n dilyn-

(a) y llythrennau "UK";

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle mae'r anifail pan roddir y tag clust;

(c) rhif unigryw; a'r

(ch) llythyren "R";

ystyr "tatŵ R" ("*R tattoo*") yw tatŵ gyda'r wybodaeth ganlynol, yn y drefn sy'n dilyn-

(a) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle mae'r anifail pan roddir y tatŵ;

(b) rhif unigryw; a'r

(c) lythyren "R";

ystyr "tag symud" ("*movement tag*"), ac eithrio ym mharagraff 18 o Atodlen 1, yw tag clust a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 22 gyda chod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol, wedi ei hargraffu yn y drefn sy'n dilyn-

(a) y llythyren "S"; a

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre y mae'r anifail yn ei gadael;

ystyr "tir pori dros dro" ("*temporary grazing*") yw daliad lle mae ceidwad yn symud anifail am gyfnod cyfyngedig er mwyn iddo gael ei fwydo neu gael pori;

ystyr "rhif unigryw" ("*unique number*") yw rhif

(**1**) OJ Rhif L 5, 9.1.04, t.8.

(c) the Sheep and Goats Identification (England) Order 2000(**1**);

(d) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) (No. 2) Order 2002(**2**);

(e) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Order 2002(**3**);

(f) the Sheep and Goats Identification and Movement (Interim Measures) (Wales) Regulations 2002(**4**);

(g) the Sheep and Goats Identification (Wales) Regulations 2000(**5**);

(h) the Identification and Movement of Sheep and Goats Order (Northern Ireland) 2004(**6**);

(i) the Identification and Movement of Sheep and Goats Order (Northern Ireland) 1997(**7**);

(j) the Sheep and Goats Identification (Scotland) Regulations 2000 (**8**); or

(k) the Sheep and Goats Movement (Interim Measures) (Scotland) Order 2002(**9**);

"register" ("*cofrestr*") means the register required by Article 5 of the Council Regulation;

"R tag" ("*tag R*") means a red eartag approved by the National Assembly for Wales in accordance with article 22 with a code comprising the following information, printed in the following order-

(a) the letters "UK";

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is in when the eartag is applied;

(c) a unique number; and

(d) the letter "R";

"R tattoo" ("*tatŵ R*") means a tattoo with the following information, in the following order-

(a) the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is in when the tattoo is applied;

(b) a unique number; and

(c) the letter "R";

"temporary grazing" ("*tir pori dros dro*") means a holding on to which a keeper moves an animal for a limited period of time for the purpose of being fed or pastured;

(**1**) S.I. 2000/2027, amended by S.I. 2001/281.

(**2**) S.I. 2002/2302 (W.227), amended by S.I. 2003/167 (W.27), S.I. 2003/946 (W.127) and S.I. 2003/1966 (W.211).

(**3**) S.I. 2002/1357 (W.133).

(**4**) S.I. 2002/274 (W.30), amended by S.I. 2002/811 (W.91).

(**5**) S.I. 2000/2335 (W.152).

(**6**) S.R. (NI) 2004 No. 491.

(**7**) S.R. (NI) 1997 No. 173, amended by S.R. (NI) 1998 No. 393.

(**8**) S.S.I. 2000/418, amended by S.S.I 2002/531 and S.S.I 2002/39.

(**9**) S.S.I. 2002/38, amended by S.S.I. 2002/221.

sy'n unigryw i anifail mewn diadell neu eifre ac nid yw'n cynnwys mwy na 6 digid;

ystyr "tag X" ("*X tag*") yw tag clust a gymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn unol ag erthygl 22 gyda chod yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol, wedi ei hargraffu yn y drefn sy'n dilyn-

(a) y llythrennau "UK";

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre y mae'r anifail yn ei gadael;

(c) rhif unigryw; a'r

(ch) llythyren "X".

(2) Mae gan y dywediadau sydd heb eu diffinio ym mharagraff (1) ac a ddefnyddir yn y Gorchymyn hwn ac yn Rheoliad y Cyngor hefyd, yr un ystyr yn y Gorchymyn hwn ag yn y Rheoliad Cyngor hwnnw.

**Cod adnabod unigol**

**3**.-(1) Mae cyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at "cod adnabod unigol" ("*individual identification code*") anifail, ac eithrio anifail sydd â mwy nag un tag clust neu datŵ gyda rhif adnabod unigol i'r anifail, yn gyfeiriad at y cod ar-

(a) y dull cyntaf o adnabod a roddwyd ar yr anifail yn unol â Rheoliad y Cyngor; neu

(b) y tag clust neu datŵ a ddefnyddiwyd i adnabod yn unigol, anifail a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005 yn unol ag unrhyw un o'r Gorchmynion blaenorol neu, yn achos anifail sydd heb ei adnabod felly, y cod ar y tag adnabod.

(2) Yn achos anifail sydd â mwy nag un tag clust neu datŵ gyda rhif i adnabod yr anifail yn unigol, mae cyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at y "cod adnabod unigol" ("*individual identification code*") yn gyfeiriad at-

(a) yn achos anifail nad yw'n dod o Ogledd Iwerddon, y tag clust neu datŵ gyda'r llythrennau "UK" a rhif sy'n adnabod yr anifail yn unigol neu, os nad yw'r anifail wedi ei nodi felly, y tag clust neu datŵ a roddwyd yn fwyaf diweddar ar yr anifail sy'n ei adnabod yn unigol; neu

(b) yn achos anifail o Ogledd Iwerddon, y cod sydd wedi ei roi ar y tag clust yng nghlust chwith yr anifail.

**Yr awdurdod cymwys**

**4**. Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion Rheoliad y Cyngor.

"unique number" (*rhif unigryw*") means a number that is unique to an animal in a flock or herd and contains no more than 6 digits;

"X tag" ("*tag X*") means an eartag approved by the National Assembly for Wales in accordance with article 22 with a code comprising the following information, printed in the following order-

(a) the letters "UK";

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is leaving;

(c) a unique number; and

(d) the letter "X".

(2) Expressions not defined in paragraph (1) which are used in this Order and which are also used in the Council Regulation have the same meaning in this Order as they have in that Council Regulation.

**Individual identification code**

**3**.-(1) A reference in this Order to the "individual identification code" ("*cod adnabod unigol*") of an animal, other than an animal bearing more than one eartag or tattoo with a number identifying the animal individually, is a reference to the code on-

(a) the first means of identification attached to the animal in accordance with the Council Regulation; or

(b) the eartag or tattoo by means of which an animal born on or before 9 July 2005 was individually identified in accordance with any of the previous Orders or, in the case of an animal not so identified, the code on the identification tag.

(2) In the case of an animal bearing more than one eartag or tattoo with a number identifying the animal individually, a reference in this Order to the "individual identification code" ("*cod adnabod unigol*") is-

(a) in the case of an animal not from Northern Ireland, the eartag or tattoo with the letters "UK" and a number identifying the animal individually or, if the animal is not so marked, the eartag or tattoo most recently applied that identifies the animal individually; or

(b) in the case of an animal from Northern Ireland, the code applied to the eartag in the animal's left ear.

**The competent authority**

**4**. The National Assembly for Wales is the competent authority for the purposes of the Council Regulation.

**Awdurdodiadau**

**5**. Mae'n rhaid i unrhyw awdurdodi, cymeradwyo neu ganiatâd a roddwyd o dan y Gorchymyn hwn neu trwy Reoliad y Cyngor fod mewn ysgrifen. Gall fod yn ddarostyngedig i amodau a gellir ei ddiwygio, ei atal neu ei ddirymu trwy hysbysiad ysgrifenedig ar unrhyw adeg.

**Authorisations**

**5**. Any authorisations, approvals or permissions issued under this Order or the Council Regulation must be in writing, may be made subject to conditions and may be amended, suspended or revoked by notice in writing at any time.

**RHAN 2**

Adnabod anifeiliaid

**PART 2**

Identification of animals

**Adnabod anifeiliaid a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005**

**6**.-(1) Mae'n rhaid i unrhyw geidwad gydymffurfio ag Erthygl 4(1)(paragraff cyntaf) ac Erthygl 4(2)(a) a (b) o Reoliad y Cyngor a'r erthygl hon.

(2) At ddibenion Erthygl 4(1) o Reoliad y Cyngor, y terfynau amser ar gyfer adnabod anifail yw-

(a) 9 mis o'r dyddiad geni, yn achos anifail a gedwir mewn amodau ffermio llai dwys neu ar faes; neu

(b) 6 mis o'r dyddiad geni, yn achos unrhyw anifail arall.

(3) Y cod adnabod ar gyfer y dull cyntaf o adnabod at ddibenion Adran A.2 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor yw'r wybodaeth ganlynol, wedi ei hargraffu yn y drefn ganlynol-

(a) y llythrennau "UK";

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle ganwyd yr anifail; ac

(c) rhif unigryw.

**Identification of animals born after 9 July 2005**

**6**.-(1) Every keeper must comply with Article 4(1)(first paragraph) and Article 4(2)(a) and (b) of the Council Regulation and this article.

(2) For the purposes of Article 4(1) of the Council Regulation, the time limits for identifying an animal are-

(a) 9 months from the date of birth, in the case of an animal kept in extensive or free range farming conditions; or

(b) 6 months from the date of birth, in the case of any other animal.

(3) The identification code for the first means of identification for the purposes of Section A.2 of the Annex to the Council Regulation is the following information, printed in the following order-

(a) the letters "UK";

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd of birth; and

(c) a unique number.

**Adnabod anifeiliaid a symudir o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio yn y Deyrnas Unedig**

**7**.-(1) Yn unol ag Erthygl 4(2)(c) o Reoliad y Cyngor, y system i gymryd lle'r ail ddull o adnabod, ac eithrio ar gyfer anifail sy'n gysylltiedig â masnach o fewn y Gymuned, yw'r system yn Atodlen 1.

(2) Ar ben hyn, mae darpariaethau Atodlen 1 yn gymwys yn ogystal â'r gofynion canlynol-

(a) Erthyglau 4(1), 4(2)(a), 4(4), 4(5) a 4(6) o Reoliad y Cyngor a'r Rhan hon o'r Gorchymyn hwn;

(b) Erthyglau 5(1), 5(3) a 5(5) o Reoliad y Cyngor a Rhan 3 o'r Gorchymyn hwn; ac

(c) Erthyglau 6(1) a 6(3) o Reoliad y Cyngor a Rhan 4 o'r Gorchymyn hwn.

(3) Hefyd mae Atodlen 1 yn gymwys i anifeiliaid a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005.

**Identification for animals moved from the holding of birth or holding of import within the United Kingdom**

**7**.-(1) Pursuant to Article 4(2)(c) of the Council Regulation, the system to replace the second means of identification, other than for an animal involved in intra-Community trade, is the system in Schedule 1.

(2) The provisions of Schedule 1 apply in addition to the requirements of-

(a) Articles 4(1), 4(2)(a), 4(4), 4(5) and 4(6) of the Council Regulation and this Part of this Order;

(b) Articles 5(1), 5(3) and 5(5) of the Council Regulation and Part 3 of this Order; and

(c) Articles 6(1) and 6(3) of the Council Regulation and Part 4 of this Order.

(3) Schedule 1 also applies to animals born on or before 9 July 2005.

**Adnabod anifeiliaid a symudir i Aelod-wladwriaeth arall o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio**

**8**.-(1) Yn achos anifail a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005 ac sy'n gysylltiedig â masnach o fewn y Gymuned, nid yw Atodlen 1 yn gymwys. Yr ail ddull o adnabod a ddynodir yn Erthygl 4(2)(b) o Reoliad y Cyngor yw tag clust neu dransbonder electronig sy'n cydymffurfio ag Adran A.4 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor.

(2) Mae'n rhaid bod gan yr ail ddull o adnabod-

(a) cod adnabod sydd yr union yr un fath â'r cod a ddefnyddiwyd yn y dull cyntaf o adnabod o dan erthygl 6(3), yn achos anifail a anwyd yng Nghymru, neu erthygl 10(3), yn achos anifail a fewnforiwyd o drydedd wlad; neu

(b) yn achos lle nad oes dim ond tag clust, y llythrennau "UK", nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle cafodd yr anifail ei eni neu ei fewnforio, rhif unigryw a'r llythyren "X".

**Identification for animals moved to another Member State from the holding of birth or holding of import**

**8**.-(1) In the case of an animal born after 9 July 2005 and involved in intra-Community trade, Schedule 1 does not apply, and the second means of identification specified in Article 4(2)(b) of the Council Regulation is an eartag or electronic transponder conforming to Section A.4 of the Annex to the Council Regulation.

(2) The second means of identification must bear-

(a) an identification code identical to that applied to the first means of identification under article 6(3), in the case of an animal born in Wales, or article 10(3), in the case of an animal imported from a third country; or

(b) in the case of an eartag only, the letters "UK", the flockmark or herdmark of the flock or herd of birth or import, a unique number and the letter "X".

**Anifeiliaid a fwriadwyd ar gyfer eu cigydda**

**9**. Rhaid peidio â defnyddio'r dull adnabod y cyfeirir ato yn Erthygl 4(3) o Reoliad y Cyngor ac a ddisgrifiwyd yn Adran A.7 o'r Atodiad i'r Rheoliad hwnnw.

**Animals intended for slaughter**

**9**. The identification method referred to in Article 4(3) of the Council Regulation and described in Section A.7 of the Annex to that Regulation must not be used.

**Adnabod anifeiliaid a fewnforir o drydydd gwledydd**

**10**.-(1) Mae'n rhaid i geidwad gydymffurfio ag Erthygl 4(4) o Reoliad y Cyngor a'r erthygl hon.

(2) At ddibenion Erthygl 4(4) (paragraff cyntaf) o Reoliad y Cyngor, y cyfnod ar gyfer adnabod anifail yw 14 o ddiwrnodau.

(3) Y cod adnabod ar gyfer y dull cyntaf o adnabod at bwrpas Adran A.2 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor ar gyfer anifeiliaid a fewnforiwyd o drydydd gwledydd yw'r-

(a) llythrennau "UK";

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle cafodd yr anifail ei fewnforio;

(c) rhif unigryw; ac

(ch) y llythyren "F".

**Identification of animals imported from third countries**

**10**.-(1) A keeper must comply with Article 4(4) of the Council Regulation and this article.

(2) For the purposes of Article 4(4) (first paragraph) of the Council Regulation, the period for identifying an animal is 14 days.

(3) The identification code for the first means of identification for the purposes of Section A.2 of the Annex to the Council Regulation for animals imported from third countries is-

(a) the letters "UK";

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd into which the animal is imported;

(c) a unique number; and

(d) the letter "F".

**Gwybodaeth ychwanegol**

**11**. Yn unol ag Adran A.2 (yr ail baragraff) o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor, ar gais y ceidwad-

(a) caiff gwneuthurwr tagiau clust sydd wedi eu cymeradwyo ychwanegu gwybodaeth atodol i'r tagiau clust; a

**Additional information**

**11**. In accordance with Section A.2 (second paragraph) of the Annex to the Council Regulation, at the keeper's request-

(a) a manufacturer of approved eartags may add supplementary information to the eartag; and

(b) caiff gwneuthurwr transbonder electronig ychwanegu gwybodaeth atodol i gasin y transbonder,

cyn belled â bod yr wybodaeth atodol yn wahanol i'r rhif adnabod a chyn belled â bod y rhif adnabod yn ddarllenadwy bob amser.

(b) a manufacturer of electronic transponders may add supplementary information to the casing of the transponder,

provided that the supplementary information is distinct from the identification number and provided that the identification number remains legible at all times.

**Tynnu dull adnabod neu roi un newydd yn ei le**

**1**-(1) Ni chaiff unrhyw berson dynnu neu roi un newydd yn lle'r dull gwreiddiol o adnabod anifail sy'n dod o Aelod-wladwriaeth arall yn groes i Erthygl 4(5) o Reoliad y Cyngor.

(2) Ni chaiff unrhyw berson fynd yn groes neu fethu â chydymffurfio ag Erthygl 4(6)(paragraff cyntaf) o Reoliad y Cyngor.

(3) Gall unrhyw berson a gyhuddir o fynd yn groes i Erthygl 4(5) neu 4(6) o Reoliad y Cyngor neu sy'n methu â chydymffurfio â'r Erthyglau hynny amddiffyn ei hun trwy brofi bod-

(a) dull o adnabod wedi cael ei dynnu i atal poen neu ddioddefaint diangen i anifail; a

(b) y rhoddwyd dull newydd o adnabod yn ei le gyda'r un cod ar yr anifail cyn gynted ag y bo'n bosibl.

**Removal or replacement of means of identification**

**12**.-(1) No person may remove or replace the original identification of an animal originating in another Member State in contravention of Article 4(5) of the Council Regulation.

(2) No person may contravene or fail to comply with Article 4(6)(first paragraph) of the Council Regulation.

(3) It is a defence for any person charged with contravening or failing to comply with Article 4(5) or 4(6) of the Council Regulation to prove that-

(a) a means of identification was removed to prevent unnecessary pain or suffering to an animal; and

(b) a replacement bearing the same code was applied to the animal as soon as possible.

**Rhoi dull newydd o adnabod gyda chod gwahanol yn lle'r hen un**

**13**.-(1) Os bydd y dull cyntaf o adnabod anifail sydd ag un tag yn mynd yn annarllenadwy neu'n cael ei golli tra bod yr anifail yn dal i fod ar y daliad geni neu'r daliad y mewnforir yr anifail iddo ac nad yw'r ceidwad am unrhyw reswm arall yn gallu deall y cod gwreiddiol ar y dull adnabod, mae'n rhaid iddo roi tag clust newydd yn ei le sy'n cynnwys-

(a) y llythrennau "UK";

(b) nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle mae'r anifail pan roddir y tag clust;

(c) rhif unigryw; ac

(ch) yn achos anifail a fewnforiwyd o drydydd gwledydd, y llythyren "F".

(2) Os gwelir bod y dull cyntaf o adnabod ar anifail sydd ag un tag yn annarllenadwy neu ei fod wedi ei golli ar unrhyw ddaliad arall ar wahân i'r daliad geni neu'r daliad y mewnforiwyd yr anifail iddo ac nad yw'r ceidwad yn gallu deall y cod gwreiddiol ar y dull adnabod, mae'n rhaid iddo ei gyfnewid gyda thag R.

(3) At ddibenion yr erthygl hon, ystyr "anifail gydag un tag" ("*single tagged animal*") yw anifail a anwyd ar ôl 9 Gorffennaf 2005 sydd â dim ond dull cyntaf o adnabod yn unol ag Erthygl 4(2)(a) o Reoliad y Cyngor.

**Replacement of the means of identification with a different code**

**13**.-(1) If the first means of identification on a single tagged animal becomes illegible or is lost while the animal is still on the holding of birth or holding of import and the keeper is otherwise unable to ascertain the original code on the identification, he or she must apply a replacement eartag bearing-

(a) the letters "UK";

(b) the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is in when the eartag is applied;

(c) a unique number; and

(d) in the case of an animal imported from a third country, the letter "F".

(2) If the first means of identification on a single tagged animal is discovered to be illegible or is lost on any holding other than the holding of birth or holding of import and the keeper is otherwise unable to ascertain the original code on the identification, he or she must replace it with an R tag.

(3) For the purposes of this article, a "single tagged animal" (*anifail gydag un tag*") means an animal born after 9 July 2005 which has only a first means of identification in accordance with Article 4(2)(a) of the Council Regulation.

**RHAN 3**

Cofrestri daliadau

**Cofrestr y daliad**

**14**.-(1) Mae unrhyw geidwad, ar wahân i gludwr, sy'n methu â chydymffurfio ag Erthyglau 5(1), 5(3) a 5(5) o Reoliad y Cyngor ac, mewn perthynas â chofrestr, yn methu â llenwi a chadw'r gofrestr honno yn unol â'r erthygl hon, yn euog o drosedd yn erbyn Deddf Iechyd Anifeiliaid 1981(**1**).

(2) Mae'n rhaid i unrhyw geidwad, ar wahân i gludwr, roi'r wybodaeth ganlynol ar y gofrestr pan symudir anifail yn ôl ac ymlaen o'i ddaliad, yn ogystal â'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Adran B o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor-

(a) nifer yr anifeiliaid a symudir; a naill ai

(b) yn achos anifail sydd wedi ei adnabod yn unol ag Erthyglau 4(2)(a) a 4(2)(b) o Reoliad y Cyngor, y cod ar y dull cyntaf o adnabod, ac os yw'n wahanol, y cod ar yr ail ddull o adnabod;

(c) yn achos anifail a symudwyd i'r daliad o Aelod-wladwriaeth arall ac sydd wedi ei nodi yn unol â Chyfarwyddeb y Cyngor 92/102/EEC, y cod ar y tag clust a roddwyd o dan y Gyfarwyddeb honno; neu

(ch) yn achos unrhyw anifail arall, y manylion sydd yn rhaid eu rhoi yn y gofrestr o dan Atodlen 1.

(3) Yn ogystal â pharagraff (2), pan symudir anifail o un lleoliad i'r llall ar y daliad, os nad yw'r lleoliadau hynny'n gyfagos, mae'n rhaid i'r ceidwad gofnodi yn y gofrestr -

(a) disgrifiad o'r lleoliadau y symudwyd yr anifail iddynt ac oddi wrthynt;

(b) dyddiad y symud; ac

(c) nifer yr anifeiliaid a symudwyd.

(4) At bwrpas Erthygl 5(3) o Reoliad y Cyngor, mae'n rhaid i'r gofrestr fod ar y ffurf a nodir yn Atodlen 2.

(5) Mae'n rhaid i'r ceidwad lenwi'r gofrestr ar yr adegau canlynol-

(a) yn achos symud anifail i'w ddaliad neu o'i ddaliad, o fewn 36 awr i'r symud;

(b) yn achos symud anifail o un lleoliad i'r llall ar ei ddaliad, o fewn 36 awr i'r symud; ac

(c) yn achos rhoi tag clust neu ddyfais electronig newydd yn lle'r hen un, o fewn 36 awr i'w newid.

(**1**) 1981 p.22.

**PART 3**

Holding registers

**Holding register**

(c) a unique number; and

(d) in the case of an animal imported from a third country, the letter "F".

(2) All references in this Part to the movement of an animal from the holding of identification are to be construed as references to the movement of an unidentified animal for the first time from the holding on which it resides at the date this Order comes into

paragraff hwn.

(3) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr "anifail sydd heb ei adnabod" ("*unidentified animal*") yw anifail a anwyd ar neu cyn 9 Gorffennaf 2005 sydd heb ei nodi gyda thag clust neu datŵ a roddwyd o dan unrhyw un o'r Gorchmynion blaenorol sy'n ei adnabod yn unigol.

**Symud o'r daliad adnabod**

**6.**-(1) Mae'r darpariaethau canlynol yn gymwys, yn ychwanegol at ofynion paragraff 5, pan symudir anifail o'r daliad lle cafodd ei adnabod.

(2) Pan symudir anifail o'r daliad lle cafodd ei adnabod i sioe neu arddangosfa, mae gofynion y gofrestr a'r ddogfen symud ym mharagraff 7 yn gymwys.

(3) Pan draddodir anifail o'r daliad adnabod i Aelod Wlad arall, mae'n rhaid i'r ceidwad-

(a) rhoi ail dag adnabod ar yr anifail gyda chod yr un union yr un fath â'r cyntaf a rhoi'r cod sydd ar y tagiau adnabod yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud; neu

(b) rhoi tag X ar yr anifail, croesgyfeirio cod y tag X i'r cod tag adnabod yn ei gofrestr a chofnodi cod y tag X yn y ddogfen symud.

(4) Pan symudir anifail o'r daliad adnabod i dir comin neu i ddaliad arall at ddibenion dipio neu gneifio a'i ddychwelyd ar unwaith i'r daliad adnabod, mae paragraff 9 yn gymwys.

(5) Pan symudir anifail o'r daliad adnabod i dir pori dros dro a'i ddychwelyd ar unwaith i'r daliad adnabod, mae paragraff 10 yn gymwys.

(6) Pan symudir anifail o'r daliad adnabod i unrhyw ddaliad arall, mae'n rhaid i'r ceidwad gofnodi'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati ym mharagraff 5(1)(a) a 5(1)(b) yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud ac mae'n rhaid i geidwad y daliad sy'n derbyn yr anifail gofnodi'r un wybodaeth yn ei gofrestr pan fydd yn derbyn yr anifail.

**Symud yn ôl ac ymlaen rhwng sioeau ac arddangosfeydd**

**7.**-(1) Pan symudir anifail o unrhyw ddaliad i sioe neu arddangosfa yn y Deyrnas Unedig, mae'n rhaid i'r ceidwad gofnodi cod adnabod unigol yr anifail hwnnw yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(2) Pan fydd yr anifail yn cyrraedd sioe neu arddangosfa, mae'n rhaid i drefnydd y sioe neu'r arddangosfa gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr.

force in accordance with this paragraph.

(3) For the purposes of this paragraph, "unidentified animal" ("*anifail sydd heb ei adnabod*") means an animal born on or before 9 July 2005 that is not marked with an eartag or tattoo applied under any of the previous Orders that identifies it individually.

**Movement from the holding of identification**

**6**.-(1) The following provisions apply, in addition to the requirements of paragraph 5, when an animal is moved from the holding of identification.

(2) When an animal is moved from the holding of identification to a show or exhibition, the register and movement document requirements of paragraph 7 applies.

(3) When an animal is consigned from the holding of identification to another member State, the keeper must-

(a) attach a second identification tag to the animal with a code identical to the first and enter the code on the identification tags in his or her register and in the movement document; or

(b) attach an X tag to the animal, cross-refer the X tag code to the identification tag code in his or her register and enter the X tag code in the movement document.

(4) When an animal is moved from the holding of identification to common land or to another holding for the purposes of dipping or shearing and returned directly to the holding of identification, paragraph 9 applies.

(5) When an animal is moved from the holding of identification to temporary grazing and returned directly to the holding of identification, paragraph 10 applies.

(6) When an animal is moved from the holding of identification to any other holding, the keeper must enter the information referred to in paragraph 5(1)(a) and 5(1)(b) in his or her register and in the movement document and the keeper at the recipient holding must enter the same information in his or her register when he or she receives the animal.

**Movements to and from shows and exhibitions**

**7**.-(1) When an animal is moved from any holding to a show or exhibition in the United Kingdom, the keeper must enter the individual identification code of that animal in his or her register and in the movement document.

(2) When the animal arrives at the show or exhibition, the show or exhibition organiser must enter its individual identification code in his or her register.

(3) Pan fydd yr anifail yn gadael y sioe neu'r arddangosfa, mae'n rhaid i drefnydd y sioe neu'r arddangosfa gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(4) Pan fydd yr anifail yn cyrraedd daliad o'r sioe neu'r arddangosfa, rhaid i'r ceidwad yn y daliad sy'n derbyn yr anifail gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr.

**Symud o farchnad i ddaliad arall**

**8**.-(1) Pan symudir anifail o farchnad, ar wahân i sioe neu arddangosfa, rhaid i weithredwr y farchnad gofnodi'r wybodaeth ganlynol yn y gofrestr yn y farchnad ac yn y ddogfen symud-

(a) y llythrennau "UK" a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle cafodd yr anifail ei eni neu ei fewnforio, yn achos anifail a anfonwyd i'r farchnad o'r daliad geni neu'r daliad lle cafodd ei fewnforio;

(b) y llythrennau "UK" neu'r llythyren "S", fel y rhoddwyd ar y tag adnabod, a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre yr anfonwyd yr anifail ohoni i'r farchnad, yn achos anifail a anfonwyd i'r farchnad o'r daliad adnabod; neu

(c) y cod ar y tag symud a roddwyd ar yr anifail gan y ceidwad a'i hanfonodd i'r farchnad neu god adnabod unigol yr anifail os gwnaeth y ceidwad hwnnw gofnodi ei god adnabod unigol, yn lle rhoi tag symud ar yr anifail, yn achos anifail a anfonwyd i'r farchnad o unrhyw ddaliad arall.

(2) Pan fydd anifail yn cyrraedd daliad o'r farchnad, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y daliad sy'n derbyn yr anifail gofnodi'r wybodaeth y cyfeiriwyd ati yn is-baragraff (1) yn ei gofrestr.

(3) Pan symudir anifail o farchnad i sioe neu arddangosfa, mae paragraff 7 yn gymwys.

**Symud yn ôl ac ymlaen rhwng tir comin, neu ar gyfer dipio neu gneifio**

**9**.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys o ran symud anifail o ddaliad-

(a) i dir comin; neu

(b) at ddibenion dipio neu gneifio, ar wahân i fynd i sioe ar gyfer cystadleuaeth cneifio,

a'i ddychwelyd yn syth i'r daliad gwreiddiol.

(2) Yn achos anifail a symudir o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio i dir comin neu ar gyfer dipio neu gneifio, mae'n rhaid i'r ceidwad gofnodi'r llythrennau "UK" a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre eni neu fewnforio yn-

(a) ei gofrestr pan fydd yr anifail yn gadael y daliad a phan fydd yn dychwelyd;

(3) When the animal leaves the show or exhibition, the show or exhibition organiser must enter its individual identification code in his or her register and in the movement document.

(4) When the animal arrives at a holding from the show or exhibition, the keeper at the recipient holding must enter its individual identification code in his or her register.

**Movements from a market to another holding**

**8**.-(1) When an animal is moved from a market, other than to a show or exhibition, the market operator must enter the following information in the register at the market and in the movement document-

(a) the letters "UK" and the flockmark or herdmark of the flock or herd of birth or import, in the case of an animal sent to the market from the holding of birth or holding of import;

(b) the letters "UK" or the letter "S", as applied to the identification tag, and the flockmark or herdmark of the flock or herd from which the animal was sent to the market, in the case of an animal sent to the market from the holding of identification; or

(c) the code on the movement tag attached to the animal by the keeper who sent it to the market or the individual identification code of the animal if that keeper entered its individual identification code, instead of attaching a movement tag, in the case of an animal sent to the market from any other holding.

(2) When an animal arrives at a holding from a market, the keeper at the recipient holding must enter the information referred to in sub-paragraph (1) in his or her register.

(3) When an animal is moved from a market to a show or exhibition, paragraph 7 applies.

**Movements to and from common land, or for dipping or shearing**

**9**.-(1) This paragraph applies to the movement of an animal from a holding-

(a) to common land; or

(b) for the purposes of dipping or shearing, other than to a show for a shearing trial,

and returned directly to the original holding.

(2) In the case of an animal moved from the holding of birth or holding of import to common land or for dipping or shearing, the keeper must enter the letters "UK" and the flockmark or herdmark of the flock or herd of birth or import in-

(a) his or her register when the animal leaves the holding and when it returns;

(b) y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn gadael y daliad hwnnw; ac

(c) y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn dychwelyd i'r daliad hwnnw.

(3) Yn achos anifail a symudir o'r daliad adnabod i dir comin neu ar gyfer dipio neu gneifio, rhaid i'r ceidwad gofnodi'r wybodaeth ym mharagraffau 5(1)(a) a 5(1)(b) yn-

(a) ei gofrestr pan fydd yr anifail yn gadael y daliad a phan fydd yn dychwelyd;

(b) y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn gadael y daliad adnabod; ac

(c) y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn dychwelyd i'r daliad adnabod.

(4) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (5), yn achos anifail a symudir o unrhyw ddaliad arall i dir comin neu ar gyfer dipio neu gneifio, mae'n rhaid i'r ceidwad-

(a) rhoi tag symud ar yr anifail pan fydd yn gadael y daliad;

(b) cofnodi cod y tag symud yn ei gofrestr pan fydd yr anifail yn gadael y daliad a phan fydd yn dychwelyd;

(c) cofnodi cod y tag symud yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn gadael y daliad; ac

(ch) cofnodi cod y tag symud yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn dychwelyd o dir comin neu dipio neu gneifio i'r daliad gwreiddiol.

(5) Nid oes raid i'r ceidwad roi tag symud ar yr anifail yn unol ag is-baragraff (4), cyn belled â'i fod yn cofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr ac yn y dogfennau symud, yn lle cod y tag symud.

(6) At bwrpas y paragraff hwn-

(a) ystyr "tir comin" ("*common land*") yw tir lle mae gan y ceidwad hawl comin cofrestredig;

(b) ystyr "hawl comin cofrestredig" ("*registered right of common*") yw hawl comin sydd wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tir Comin 1965(**1**).

**Symud rhwng tir pori dros dro a'r daliad geni, y daliad mewnforio neu adnabod**

**10**.-(1) Pan fydd ceidwad yn symud anifail o'r daliad geni neu'r daliad mewnforio i dir pori dros dro ac yn dychwelyd yr anifail hwnnw o dir pori dros dro yn uniongyrchol i'r daliad geni neu'r daliad mewnforio, mae'n rhaid iddo gofnodi'r llythrennau "UK" a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre eni neu fewnforio yn-

(**1**) 1965 p.64.

(b) the movement document that accompanies the animal when it leaves that holding; and

(c) the movement document that accompanies the animal when it returns to that holding.

(3) In the case of an animal moved to common land or for dipping or shearing from the holding of identification, the keeper must enter the information in paragraphs 5(1)(a) and 5(1)(b) in-

(a) his or her register when the animal leaves the holding and when it returns;

(b) the movement document that accompanies the animal when it leaves the holding of identification; and

(c) the movement document that accompanies the animal when it returns to the holding of identification.

(4) Subject to sub-paragraph (5), in the case of an animal moved from any other holding to common land or for dipping or shearing, the keeper must-

(a) attach a movement tag to the animal when it leaves the holding;

(b) enter the movement tag code in his or her register when the animal leaves the holding and when it returns;

(c) enter the movement tag code in the movement document that accompanies the animal when it leaves the holding; and

(d) enter the movement tag code in the movement document that accompanies the animal when it returns from common land or dipping or shearing to the original holding.

(5) The keeper need not attach a movement tag to an animal in accordance with sub-paragraph (4), provided that he or she enters the individual identification code of the animal in his or her register and in the movement documents, instead of the movement tag code.

(6) For the purposes of this paragraph-

(a) "common land" ("*tir comin*") means land over which the keeper has a registered right of common;

(b) "registered right of common" ("*hawl comin cofrestredig*") means a right of common registered under the Commons Registration Act 1965(**1**).

**Movements between temporary grazing and the holding of birth, import or identification**

**10**.-(1) When a keeper moves an animal from the holding of birth or the holding of import to temporary grazing and returns that animal from temporary grazing directly to the holding of birth or import, he or she must enter the letters "UK" and the flockmark or herdmark of the flock or herd of birth or import in-

(**1**) 1965 c.64.

(a) ei gofrestr pan fydd yr anifail yn gadael y daliad geni neu'r daliad mewnforio a phan fydd yn dychwelyd;

(b) yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn symud i dir pori dros dro; ac

(c) yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn dychwelyd o dir pori dros dro i'r daliad geni neu ddaliad mewnforio, oni bai y gofelir am yr anifail gan geidwad gwahanol yn y tir pori dros dro, os felly mae'n rhaid i'r ceidwad hwnnw lenwi dogfen symud yn unol ag is-baragraff (3)(b).

(2) Yn achos anifail sy'n cael ei symud i dir pori dros dro o'r daliad adnabod, rhaid i'r ceidwad gofnodi'r llythyren "S" neu'r llythrennau "UK", fel y rhoddwyd ar y tag adnabod, a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre y mae'r anifail yn ei adael i fynd i dir pori dros dro, yn lle'r wybodaeth yn is-baragraff (1).

(3) Yn ogystal â gofynion is-baragraffau (1) a (2), os gofelir am yr anifail gan geidwad gwahanol ar dir pori dros dro, rhaid i'r ceidwad hwnnw-

(a) cofnodi'r llythrennau "UK" a nod y ddiadell neu nod yr eifre ar gyfer y ddiadell neu'r eifre lle ganwyd neu lle mewnforiwyd yr anifail yn ei gofrestr pan fydd yr anifail yn cyrraedd yno a phan fydd yn gadael, neu yn achos anifail a anfonwyd i dir pori dros dro o'r daliad adnabod, cofnodi'r wybodaeth sydd yn is-baragraff (2) yn ei gofrestr; a

(b) llenwi'r ddogfen symud gyda'r wybodaeth hon pan fydd yr anifail yn gadael tir pori dros dro i ddychwelyd i'r daliad geni neu'r daliad mewnforio.

**Symudiadau rhwng tir pori dros dro ac unrhyw ddaliad arall**

**11**.-(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), pan fydd ceidwad yn symud anifail o unrhyw ddaliad (ar wahân i'r daliad geni, daliad mewnforio neu ddaliad adnabod) i dir pori dros dro ac yn dychwelyd yr anifail hwnnw o dir pori dros dro yn uniongyrchol i'r daliad, rhaid iddo-

(a) rhoi tag symud ar yr anifail hwnnw pan fydd yn gadael y daliad;

(b) cofnodi cod y tag symud yn ei gofrestr pan fydd yr anifail yn gadael a phan fydd yn dychwelyd;

(c) cofnodi cod y tag symud yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn gadael y daliad; ac

(ch) cofnodi cod y tag symud yn y ddogfen symud sy'n mynd gyda'r anifail pan fydd yn dychwelyd o dir pori dros dro i'r daliad, oni bai

(a) his or her register when the animal leaves the holding of birth or holding of import and when it returns;

(b) the movement document that accompanies the animal when it moves to temporary grazing; and

(c) in the movement document that accompanies the animal when it returns from temporary grazing to the holding of birth or holding of import, unless the animal is tended by a different keeper at temporary grazing, in which case that keeper must complete the movement document in accordance with sub-paragraph (3)(b).

(2) In the case of an animal that is moved to temporary grazing from the holding of identification, the keeper must enter the letter "S" or the letters "UK", as applied to the identification tag, and the flockmark or herdmark of the flock or herd the animal is leaving to go to temporary grazing, instead of the information in sub-paragraph (1).

(3) In addition to the requirements of sub-paragraphs (1) and (2), if the animal is tended by a different keeper at temporary grazing, that keeper must-

(a) enter the letters "UK" and the flockmark or herdmark of the flock or herd of the animal's birth or import in his or her register when the animal arrives there and when it leaves, or in the case of an animal sent to temporary grazing from the holding of identification, enter the information in sub-paragraph (2) in his or her register; and

(b) complete the movement document with this information when the animal leaves temporary grazing to return to the holding of birth or holding of import.

**Movements between temporary grazing and any other holding**

**11**.-(1) Subject to sub-paragraph (2), when a keeper moves an animal from any holding (other than the holding of birth, holding of import or holding of identification) to temporary grazing and returns that animal from temporary grazing directly to the holding, he or she must-

(a) attach a movement tag to that animal when it leaves the holding;

(b) enter the movement tag code in his or her register when the animal leaves and when it returns;

(c) enter the movement tag code in the movement document that accompanies the animal when it leaves the holding; and

(d) enter the movement tag code in the movement document that accompanies the animal when it returns from temporary grazing to the holding,

y gofelir am yr anifail gan geidwad gwahanol yn y tir pori dros dro, os felly mae'n rhaid i'r ceidwad hwnnw lenwi'r ddogfen symud yn unol ag is-baragraff 3(b).

(2) Nid oes raid i'r ceidwad roi tag symud ar anifail yn unol ag is-baragraff (1)(a), cyn belled â'i fod yn cofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn y gofrestr ac yn y dogfennau symud yn lle cod y tag symud.

(3) Yn ychwanegol at ofynion is-baragraffau (1) a (2), os gofelir am yr anifail gan geidwad gwahanol ar dir pori dros dro, mae'n rhaid i'r ceidwad hwnnw-

(a) cofnodi yn ei gofrestr, god y tag symud sydd wedi ei roi gan y ceidwad a anfonodd yr anifail i dir pori dros dro pan fydd yr anifail yn cyrraedd a phan fydd yn gadael, neu, y cod adnabod unigol, os gwnaeth y ceidwad a anfonodd yr anifail gofnodi'r cod hwn yn ei gofrestr yn lle rhoi tag symud ar yr anifail; a

(b) llenwi'r ddogfen symud gyda'r un wybodaeth pan fydd yr anifail yn gadael y tir pori dros dro i fynd yn ôl i'r daliad gwreiddiol.

**Symud yn ôl ac ymlaen rhwng clinig milfeddyg**

**12**. Pan fydd anifail yn cael ei-

(a) symud o ddaliad i glinig milfeddyg; a

(b) ei ddychwelyd yn uniongyrchol i'r daliad hwnnw o glinig y milfeddyg,

mae'n rhaid i'r ceidwad lenwi ei gofrestr gyda'r wybodaeth sy'n ofynnol gan Erthygl 5 o Reoliad y Cyngor pan fydd yr anifail yn gadael y daliad a hefyd pan fydd yn cyrraedd yn ôl i'r daliad.

**Symud hwrdd a fwriedir ar gyfer bridio**

**13**.-(1) Pan fydd mangre o dan gyfyngiadau symud, yn unol â Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, ac mae hwrdd yn cael ei symud o'r fangre honno i farchnad yn ystod y cyfnod gwahardd symud o dan yr eithrio ym mharagraff 12 o Atodlen 1 i'r Gorchymyn hwnnw, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y fangre honno gofnodi cod adnabod unigol yr hwrdd hwnnw yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(2) Pan fydd yr hwrdd yn cyrraedd y farchnad, mae'n rhaid i weithredwr y farchnad gofnodi cod adnabod unigol yr hwrdd yn ei gofrestr.

(3) Pan symudir yr hwrdd o'r farchnad, mae'n rhaid i weithredwr y farchnad gofnodi cod adnabod unigol yr hwrdd yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

unless the animal is tended by a different keeper at temporary grazing, in which case that keeper must complete the movement document in accordance with sub-paragraph 3(b).

(2) The keeper need not attach a movement tag to an animal in accordance with sub-paragraph (1)(a), provided that he or she enters the individual identification code of the animal in the register and in the movement documents instead of the movement tag code.

(3) In addition to the requirements of sub-paragraphs (1) and (2), if the animal is tended by a different keeper at temporary grazing, that keeper must-

(a) enter in his or her register the movement tag code attached by the keeper who sent the animal to temporary grazing when the animal arrives and when it leaves, or, the individual identification code, if the keeper who sent the animal entered this code in his or her register instead of attaching a movement tag; and

(b) complete the movement document with the same information when the animal leaves temporary grazing to return to the original holding.

**Movements to and from a veterinary clinic**

**12**. When an animal is-

(a) moved from a holding to a veterinary clinic; and

(b) returned directly to that holding from the veterinary clinic,

the keeper must complete his or her register with the information required by Article 5 of the Council Regulation when the animal leaves the holding and also when it arrives back at the holding.

**Movement of a ram intended for breeding**

**13**.-(1) When, in accordance with the Disease Control (Wales) Order 2003, premises are under movement restrictions, and a ram is moved from those premises to a market during the standstill period under the exemption in paragraph 12 of Schedule 1 to that Order, the keeper at those premises must enter the individual identification code of that ram in his or her register and in the movement document.

(2) When the ram arrives at the market, the market operator must enter its individual identification code in his or her register.

(3) When the ram is moved from the market, the market operator must enter its individual identification code in his or her register and in the movement document.

(4) Pan fydd yr hwrdd yn cyrraedd y fangre y cafodd ei draddodi iddi o'r farchnad, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y fangre honno gofnodi rhif adnabod unigol yr hwrdd yn ei gofrestr pan fydd yr hwrdd yn cyrraedd y fangre honno.

(5) Os caiff hwrdd ei ddychwelyd i'r fangre wreiddiol o'r farchnad yn unol â darpariaethau paragraff 6 o Atodlen 2 i Orchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y fangre wreiddiol gofnodi cod adnabod unigol yr hwrdd yn ei gofrestr.

**Hwrdd yn cyrraedd mangre ar gyfer bridio**

**14**. Pan symudir hwrdd i fangre at ddibenion bridio yn unol â'r esemptiad ym mharagraff 7 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003, rhaid i'r ceidwad yn y fangre honno gofnodi cod adnabod unigol yr hwrdd yn ei gofrestr.

**Symud gafr a fwriedir ar gyfer bridio**

**15**. Pan anfonir gafr o un fangre i fangre arall ar gyfer bridio, ac yntau wedi ei gadw ar wahân ar y fangre y mae'n ei gadael yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 2 i'r Gorchymyn Rheoli Clefydau (Cymru) 2003 er mwyn osgoi sbarduno cyfnod segur yn y fangre y bydd yn ei chyrraedd-

(a) rhaid i'r ceidwad yn y fangre y bydd yr afr yn ei gadael gofnodi cod adnabod unigol yr afr yn ei gofrestr a'r ddogfen symud pan fydd yr afr yn gadael y fangre;

(b) rhaid i'r ceidwad yn y fangre y bydd yr afr yn ei chyrraedd gofnodi cod adnabod unigol yr afr yn ei gofrestr;

(c) pan fydd yr afr yn dychwelyd i'r fangre wreiddiol, rhaid i'r ceidwad yn y fangre lle'r anfonwyd yr afr ar gyfer bridio gofnodi'r cod adnabod unigol yn ei gofrestr a'r ddogfen symud; ac

(ch) pan fydd yr anifail yn dychwelyd i'r fangre wreiddiol rhaid i'r ceidwad yn y fangre honno gofnodi'r cod adnabod unigol yn ei gofrestr.

**Symud i Aelod Wlad arall trwy ganolfan ymgynnull**

**16**.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys ar gyfer traddodi anifail ar gyfer masnach o fewn y Gymuned trwy ganolfan ymgynnull.

(2) Os traddodir anifail i ddaliad gyda'r bwriad o'i anfon ymlaen i ganolfan ymgynnull at ddibenion masnach o fewn y Gymuned, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y daliad hwnnw gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr.

(4) When the ram arrives at the premises to which it has been consigned from the market, the keeper at those premises must enter the individual identification number of the ram in his or her register when the ram arrives at those premises.

(5) If the ram is returned to the original premises from the market in accordance with the provisions of paragraph 6 of Schedule 2 to the Disease Control (Wales) Order 2003, the keeper at the original premises must enter the ram's individual identification code in his or her register.

**Arrival of a ram on a premises for breeding**

**14**. When a ram is moved on to premises for the purposes of breeding in accordance with the exemption in paragraph 7 of Schedule 2 to the Disease Control (Wales) Order 2003, the keeper at those premises must enter the ram's individual identification code in his or her register.

**Movement of a goat intended for breeding**

**15**. When a goat is sent from one premises to another for breeding, and has been held in isolation on the premises of departure in accordance with paragraph 8 of Schedule 2 to the Disease Control (Wales) Order 2003 in order to avoid triggering a standstill on the premises of arrival-

(a) the keeper at the premises of departure must enter the individual identification code of the goat in his or her register and the movement document when the goat leaves the premises;

(b) the keeper at the premises of arrival must enter the individual identification code of the goat in his or her register;

(c) when the goat returns to the original premises, the keeper at the premises where the animal was sent for breeding must enter the individual identification code in his or her register and the movement document; and

(d) when the animal returns to the original premises the keeper at those premises must enter the individual identification code in his or her register.

**Movements to another Member State through an assembly centre**

**16.**-(1) This paragraph applies to the consignment of an animal for intra-Community trade through an assembly centre.

(2) If an animal is consigned to a holding with the intention of forwarding it to an assembly centre for the purposes of intra-Community trade, the keeper at that holding must enter the individual identification code of the animal in his or her register.

(3) Pan fydd yr anifail yn gadael y daliad i fynd i'r ganolfan ymgynnull, rhaid i'r ceidwad gofnodi rhif adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(4) Pan fydd yr anifail yn cyrraedd y ganolfan ymgynnull, rhaid i'r ceidwad yn y ganolfan ymgynnull gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr.

(5) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (6), pan symudir yr anifail o'r ganolfan ymgynnull i gael ei draddodi'n uniongyrchol i Aelod-wladwriaeth arall, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y ganolfan ymgynnull-

(a) rhoi ail dag clust neu dransbonder electronig ar yr anifail gyda'r cod adnabod unigol; a

(b) cofnodi'r cod adnabod unigol yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(6) Nid yw is-baragraff (5) yn gymwys os yw'r ceidwad-

(a) yn rhoi tag X ar yr anifail cyn iddo adael y ganolfan ymgynnull;

(b) yn croesgyfeirio yn ei gofrestr, god y tag X gyda chod adnabod unigol yr anifail; ac

(c) yn cofnodi cod y tag X yn y ddogfen symud.

(7) Mae'n rhaid i dransbonder electronig sydd wedi ei roi neu ei osod ar anifail o dan y paragraff hwn gydymffurfio gyda gofynion Adran A.6 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor.

**Symud i Aelod Wlad arall (ac eithrio trwy ganolfan ymgynnull)**

**17**.-(1) Mae'r paragraff hwn yn gymwys o ran traddodi anifail i Aelod Wlad arall ac eithrio trwy ganolfan ymgynnull.

(2) Os caiff anifail ei draddodi i ddaliad, ac eithrio canolfan ymgynnull, gyda'r bwriad o'i draddodi i Aelod-wladwriaeth arall, mae'n rhaid i'r ceidwad yn y daliad hwnnw gofnodi cod adnabod unigol yr anifail yn ei gofrestr.

(3) Yn ddarostyngedig i is-baragraff (4), pan symudir anifail o'r daliad hwnnw yn uniongyrchol i Aelod-wladwriaeth arall, mae'n rhaid i'r ceidwad-

(a) rhoi ail dag clust neu dransbonder electronig ar yr anifail gyda'r cod adnabod unigol; a

(b) cofnodi'r cod adnabod unigol yn ei gofrestr ac yn y ddogfen symud.

(4) Nid yw is-baragraff (3) yn gymwys os yw'r ceidwad-

(3) When the animal leaves the holding to go to the assembly centre, the keeper must enter the individual identification number of the animal in his or her register and in the movement document.

(4) When the animal arrives at the assembly centre, the keeper at the assembly centre must enter the individual identification code of the animal in his or her register.

(5) Subject to sub-paragraph (6), when the animal is moved from the assembly centre for direct consignment to another Member State, the keeper at the assembly centre must-

(a) attach a second eartag or an electronic transponder to the animal bearing its individual identification code; and

(b) enter the individual identification code in his or her register and in the movement document.

(6) Sub- paragraph (5) does not apply if the keeper-

(a) attaches an X tag to the animal before it leaves the assembly centre;

(b) cross-refers in his or her register the X tag code with the individual identification code of the animal; and

(c) enters the X tag code in the movement document.

(7) Electronic transponders attached or applied to an animal under this paragraph must conform to the requirements of Section A.6 of the Annex to the Council Regulation.

**Movements to another Member State (other than through an assembly centre)**

**17**.-(1) This paragraph applies to the consignment of an animal to another Member State other than through an assembly centre.

(2) If an animal is consigned to a holding, other than an assembly centre, with the intention of consigning it to another Member State, the keeper at that holding must enter the individual identification code of the animal in his or her register.

(3) Subject to sub-paragraph (4), when the animal is moved from that holding directly to another member State, the keeper must-

(a) attach a second eartag or electronic transponder to the animal bearing its individual identification code; and

(b) enter the individual identification code in his or her register and in the movement document.

(4) Sub-paragraph (3) does not apply if the keeper-

(a) yn rhoi tag X ar yr anifail cyn iddo adael y ganolfan ymgynnull;

(b) yn croesgyfeirio yn ei gofrestr, god y tag X gyda chod adnabod unigol yr anifail; ac

(c) cofnodi cod y tag X yn y ddogfen symud.

(5) Mae'n rhaid i dransbonder electronig sydd wedi ei roi neu ei osod ar anifail o dan y paragraff hwn gydymffurfio â gofynion Adran A.4 o'r Atodiad i Reoliad y Cyngor.

(a) attaches an X tag to the animal before it leaves the assembly centre;

(b) cross-refers in his or her register the X tag code with the individual identification code of the animal; and

(c) enters the X tag code in the movement document.

(5) Electronic transponders attached or applied to an animal under this paragraph must conform to the requirements of Section A.4 of the Annex to the Council Regulation.

## RHAN 3

Anifeiliaid o Loegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon

**Anifeiliaid o Loegr neu'r Alban**

**18**. Pan fydd anifail yn dod i mewn i Gymru o ddaliad yn Lloegr neu'r Alban mae'n rhaid i geidwad y daliad a fydd yn derbyn yr anifail yng Nghymru gofnodi'r un wybodaeth yn ei gofrestr yn union fel pe bai'r anifail wedi dod o ddaliad yng Nghymru ac at y dibenion hyn-

(a) dehonglir "nod y ddiadell" ("*flockmark*") a "nod yr eifre" ("*herdmark*") fel nod y ddiadell neu nod yr eifre a ddyrannwyd yn Lloegr neu'r Alban gan yr awdurdod cymwys; a

(b) dehonglir "tag symud" ("*movement tag*") fel y tag symud a gymeradwywyd yn Lloegr neu'r Alban gan yr awdurdod cymwys gyda'r cod a bennwyd gan yr awdurdod cymwys.

**Anifeiliaid o Ogledd Iwerddon**

**19**. Pan fydd anifail yn dod i mewn i Gymru o ddaliad yng Ngogledd Iwerddon, rhaid i'r ceidwad a fydd yn derbyn yr anifail yng Nghymru gofnodi yn ei gofrestr, y nodau ar y tag clust a osodwyd ar glust chwith yr anifail, ac eithrio'r rhif unigryw.

## PART 3

Animals from England, Scotland or Northern Ireland

**Animals from England or Scotland**

**18**. When an animal is brought into Wales from a holding in England or Scotland the keeper at the holding of destination in Wales must enter the same information in his or her register as if the animal had been brought from a holding in Wales and for these purposes-

(a) "flockmark" ("*nod y ddiadell*") and "herdmark" ("*nod yr eifre*") are to be construed as a flockmark or herdmark allocated in England or Scotland by the competent authority; and

(b) "movement tag" ("*tag symud*") is to be construed as the movement tag approved in England or Scotland by the competent authority and bearing the code specified by the competent authority.

**Animals from Northern Ireland**

**19**. When an animal is brought into Wales from a holding in Northern Ireland, the keeper at the holding of destination in Wales must enter in his or her register the characters on the eartag applied to the animal's left ear, other than the unique number.

ATODLEN 2

Erthygl 14 (4)

COFRESTR Y DALIAD

# COFRESTR Y DDIADELL/GEIFRE

| | |
|---|---|
| Enw'r Ceidwad | |
| Cyfeiriad y Ceidwad | Cod Post |
| Cyfeiriad y Deiliad (os yn wahanol i'r uchod) | Cod Post |
| Rhif y Daliad | |
| Rhif y Ddiadell/Geifre | |
| Rhywogaeth ac Enw'r Eifre | |
| Math o Gynhyrchu (e.e. Llaeth/Cig) | |

SCHEDULE 2

Article 14 (4)

HOLDING REGISTER

# FLOCK/HERD REGISTER

| | |
|---|---|
| Name of Keeper | |
| Address of Keeper | Postcode |
| Address of Holding (if different from above) | Postcode |
| Holding Number | |
| Flock/Herd Number | |
| Species and Herd Name | |
| Type of Production (eg Milk/Meat) | |

# Cofnod Tag Newydd / Cofnod Dyfais Electronig

| **Dyddiad cael un newydd** | **Nifer y rhai newydd** | *Croesgyfeirio gyda nod(au) blaenorol* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**PRINT TRWM** = Gorfodol

*Italig* = Dewisol

# Replacement Tag Record / Electronic Device Record

| **Date of Replacement** | **Number of Replacements** | *Cross reference with previous mark(s)* |
|---|---|---|
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |
| | | |

**BOLD** = Compulsory

*Italics* = Optional

# Stocrestr ar gyfer Blwyddyn Galendr 20XX

| [ 1 Ionawr] Cyfanswm y Defaid/Geifr: {dileer fel y bo'n briodol} Dyddiad y Cofnodwyd: {rhaid iddo fod cyn 31 Ionawr bob blwyddyn} | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.Dyddiad** | **2. Nifer y defaid/geifr a symudwyd** | **3. Cod perthnasol neu nod y ddiadell /geifre** | **4. Enwau'r cludwyr a rhif cofrestru'r cerbyd** | **5. Rhif CPH y daliad ymadael** *(Cyfeiriad)* | **6. Rhif CPH neu gyfeiriad y daliad cyrchu** | **7. Os y'u symudwyd o farchnad, rhif lot** | **8.** *Os y'u gwerthwyd heb adael y daliad, enw a chyfeiriad y perchennog newydd* | **9.** *Nifer y defaid/geifr a Anwyd/a Gollwyd/a fu farw* | **10. Cyfanswm rhedol** |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

**PRINT TRWM** = Gorfodol

*Italig* = Dewisol

# Inventory for Calendar Year 20XX

| [ 1st January] Total Number of Sheep/Goats: {delete as appropriate} Date Entered: {must be before 31 January each year} | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.Date** | **2. Number of sheep /goats moved** | **3. Relevant code or flock/herd mark** | **4. Transporter's names and vehicle registration number** | **5. CPH number of holding of Departure** *(Address)* | **6. CPH number or address of destination holding** | **7. If moved from a market, lot number** | **8.** *If sold without leaving holding, name and address of new owner* | **9.** *Number of sheep /goats Born/Lost /Died* | **10. Running Total** |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |
| | | | | | | | | | |

**BOLD** = Compulsory

*Italics* = Optional

ATODLEN 3

Erthygl 17(3)(a)

DOGFEN SYMUD

**Dogfen Symud o dan Orchymyn Defaid a Geifr (Cofnodion, Adnabod a Symud) (Cymru) 2006**

---

**Adran A - Adnabod ac olrhain. (A fyddech cystal â llenwi Adran C isod hefyd.)**

1. **Manylion ymadael**
CPH/
Cyfeirnod arall ☐☐☐

Dychwelyd o Tac? ☐

Dychwelyd o dreialon cŵn defaid ☐

Dychwelyd ar ôl eu casglu ynghyd o dir comin? ☐

Enw'r ceidwad a chyfeiriad llawn y daliad **Ymadael**

Cod post

Enw a chyfeiriad llawn y **Perchennog** (os yn wahanol)

Cod post

2. **Manylion y defaid** ☐ **geifr** ☐ *(Ticiwch y blwch priodol)*

| Nifer yr anifeiliaid | Disgrifiad (e.e. mamogiaid, mynnod geifr) | Rhif Lot | Cod Perthnasol neu Nod y Ddiadell/Geifre |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | **Cyfanswm yr anifeiliaid** | | |

Yr wyf yn datgan bod y manylion uchod yn gywir

Llofnod y Ceidwad

Dyddiad

Enw - PRIF lythrennau

Rhif ffôn
(+ cod deialu cenedlaethol)

---

**Adran B - Manylion y cludwr**

Enw a chyfeiriad llawn

Cod Post

Rhif Cynllun Gwarant

Rhif cofrestru'r cerbyd(au)/
Rhif adnabod yr ôl-gerbyd

Dyddiad a lleoliad glanhau'r cerbyd ddiwethaf

Rhif trwydded y Cludwyr (*lle bo'n briodol*)

| **Llwytho** | **Ymadael** | **Dadlwytho** |
|---|---|---|
| Dyddiad: | Dyddiad: | Dyddiad: |

Dechrau: | Amser: | Gorffen:

**Amser a'r lleoliadau lle arhoswyd i orffwys gan gynnwys os cafodd yr anifeiliaid ddŵr ac/neu fwyd (os dros 8 awr)**

Rhif ffôn (+ cod deialu cenedlaethol)

Llofnod y Cludwr

Enw mewn PRIFLYTHRENNAU

## Adran C - Manylion cyrchu (1)

Enw a chyfeiriad llawn

Cod Post

**Nodwch y math o Farchnad neu Ganolfan Casglu, lle bo'n briodol**

· Cigydda un pwrpas ☐ · Arall ☐

DOGFEN SYMUD SAMPL

## Adran D - Manylion cyrchu (2)

CPH/Cyfeirnod arall

Nifer yr anifeiliaid

Yr wyf yn datgan bod y manylion yn yr adran hon yn gywir.

Llofnod

Enw mewn PRIF lythrennau

Dyddiad

Rhif ffôn (+ cod deialu cenedlaethol)

SCHEDULE 3

Article 17(3)(a)

MOVEMENT DOCUMENT

**Movement Document under the Sheep and Goats (Records, Identification and Movement) (Wales) Order 2006**

**Section A - Identification and traceability. (Please also complete Section C below.)**

Completion by Keeper at Departure Holding

1. **Departure details** Departure CPH /Other ref. ☐☐☐

Return from Tack? ☐ Return from Sheep Dog Trials ☐

Return from rounding up from common land? ☐

Keeper's name and full postal address of holding of **Departure**

Postcode

Name and full postal address of **Owner** (if different)

Postcode

2. **Details of sheep** ☐ **goats** ☐ *(Please tick appropriate box)*

| Number of animals | Description (eg ewes and kids) | Lot Number | Relevant Code or Flock / Herd Mark |
|---|---|---|---|
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | **Total number of animals** | | |

I declare the above details are correct

Keeper's Signature

Date

Name in BLOCK letters

Tel. No. (incl. national dialling code)

## Section B - Transporter details

Completion by Transport

Name and full address

Postcode

Assured Scheme number

Vehicle registration(s)/ trailer ID

Date and place vehicle last cleansed

Transporters permit No. *(where applicable)*

| **Loading** | **Departure** | **Unloading** |
|---|---|---|
| Date: | Date: | Date: |
| Start time: | Time: | Finish time: |

**Time and place where rest stops undertaken including if the animals were watered and/or fed (if over 8 hours)**

Tel. No. (incl. nat. dialling code)

Transporter's Signature

Name in BLOCK letters

## Section C - Destination details (1)

Name and full postal address

Postcode

**State type of Market or Collecting Centre, where appropriate**

· Dedicated slaughter ☐ · Other ☐

SAMPLE MOVEMENT DOCUMENT

## Section D - Destination details (2)

CPH/Other ref.

No. of animals received

I declare the details in this section are correct.

Signature

Name in BLOCK letters

Date

Tel. No. (incl. nat. dialling code)

©ⓗ Hawlfraint y Goron 2006

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y Deyrnas Unedig gan The Stationery Office Limited o dan awdurdod ac arolygiaeth Carol Tullo, Rheolwr Gwasg Ei Mawrhydi ac Argraffydd Deddfau Seneddol y Frenhines.

© Crown copyright 2006

Printed and Published in the UK by the Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Carol Tullo, Controller of Her Majesty's Stationery Office and Queen's Printer of Acts of Parliament.

W307/04/06 ON